Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Crown Building
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Ein Cyf / Our Ref: 3274702

Ffôn / Tel: 0300 123 1590
E-Bost / E-Mail: PEDW.infrastructure@gov.wales

Dyddiad / Date: 12.09.2024

Pegasus Group (Asiant yr Ymgeisydd / Applicant's Agent)

Cyngor Sîr Ynys Môn Isle of Anglesey County Council (Awdurdod Cynllunio Lleol / Local Planning Authority)

Ymgyngoreion Arbenigol / Ymgyngoreion Cymunedol / Phartïon â Buddiant | Specialist Consultees / Community Consultees / Interested Parties

(gan E-Bost / via E-Mail)

Annwyl Syr / Madam | Dear Sir / Madam

**** English Text follows the Welsh text, see page 06 onwards****

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ('Deddf 1990')**
**Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau DAC')**
**Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) ('y Gorchymyn Gweithdrefn DAC')**

**Cais gan:** Wylfa Green Ltd
**Cyfeiriad y safle:** I'r gorllewin o'r B5112, 325M i'r de o Lyn Alaw, 500M i'r dwyrain o Lantrisant ac 1.5KM i'r Gorllewin o Lanerch.
**Datblygiad arfaethedig:** Adeiladu, Gweithredu, Rheoli a Dadgomisiynu cyfleuster Fferm Solar a Storio Ynni wedi'i osod ar y ddaear gyda datblygiad cysylltiedig, gan gynnwys cyfansoddion is-orsaf; gwelliannau mynediad i'r safle; ffosydd cebl; bioamrywiaeth, tirluniau a gwrychoedd lliniaru a gwelliannau.

Cyflwynwyd y cais uchod i Weinidogion Cymru i'w archwilio. Ystyrir ei fod yn cynnwys yr

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

holl ddogfennau ategol hanfodol a thalwyd y ffioedd angenrheidiol yn llawn; fel y cyfryw, mae'n gais dilys a bydd y cyfnod archwilio'n dechrau nawr. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru cyn pen 24 wythnos o ddyddiad y llythyr hwn.

Yr Arolygydd a benodwyd i archwilio'r Cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) hwn yw: [redacted]

Mae dogfennau'r cais i'w gweld ar y wefan (DAC):

[redacted] **- Chwiliwch 3274702.**

Mae'r ohebiaeth hon yn gyfystyr ag **hysbysiad derbyn swyddogol o dan Erthygl 15(2) y Gorchymyn Gweithdrefn DAC.**

Dylai'r holl bartïon ddarllen y canlynol yn ofalus i sicrhau eu bod yn deall y broses a nodi unrhyw derfynau amser perthnasol.

## 1. <u>Yr Awdurdod Cynllunio Lleol</u>

Mae nawr yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) arddangos hysbysiad ar y safle, fel mater o frys, mewn o leiaf un lle ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, am gyfnod nad yw'n llai na **30 diwrnod.**

Rhaid codi'r hysbysiadau o fewn 5 diwrnod gwaith o ddyddiad yr Hysbysiad Derbyn hwn. Rhaid i'r ACLl ysgrifennu at Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) drwy [redacted] i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad i godi'r hysbysiad safle cyn gynted â phosibl ar ôl i'r hysbysiadau gael eu codi.

Hefyd, rhaid i'r ACLl roi ar y gofrestr gynllunio, cyn pen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr hwn, gopi o'r dogfennau canlynol:

- y cais a wnaed i Weinidogion Cymru;
- yr hysbysiad o dderbyn cais a roddwyd gan Weinidogion Cymru dan Erthygl 12 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016;
- yr hysbysiad derbyn a roddwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chais dan Erthygl 15(2), h.y. yr hysbysiad hwn.

Er mwyn i'r Arolygydd penodedig ystyried y cais yn llawn a chyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, mae'n hollbwysig bod yr ACLl yn llunio Adroddiad ar yr Effaith Leol (AELl) cynhwysfawr, fel sy'n ofynnol gan Adran 62I(4) Deddf 1990, a Rheoliad 25 y Gorchymyn Gweithdrefn DAC. Rhaid i PCAC dderbyn yr adroddiad hwn heb fod yn hwyrach na 16.10.2024.

Mae Adran 62K Deddf 1990, a Rheoliad 25 y Gorchymyn Gweithdrefn DNS yn pennu'r gofynion lleiaf ar gyfer cynnwys AELl. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Effaith debygol y datblygiad ar yr ardal;
- hanes cynllunio'r safle;
- dynodiadau lleol sy'n berthnasol i'r safle / cwmpasoedd;

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

- unrhyw bolisïau cynllunio lleol, arweiniad neu ddogfennau eraill;
- amodau neu rwymedigaethau drafft y mae'r ACLl o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn lliniaru effeithiau tebygol y datblygiad; a
- thystiolaeth o'r cyhoeddusrwydd a roddwyd gan yr ACLl, yn unol â'r Gorchymyn Gweithdrefn h.y. copi o'r hysbysiad safle, llun o'r hysbysiad safle'n cael ei arddangos a map yn dangos lleoliad yr hysbysiad safle; ac
- os oes unrhyw ganiatâd (caniatadau) eilaidd yn cael ei geisio gyda'r cais, rhaid i'r AELl fynd i'r afael ag effaith tebygol rhoi'r caniatâd (caniatadau) hefyd, yn ddelfrydol fel adrannau ar wahân ar gyfer pob caniatâd eilaidd.

Os bydd yr ACLl yn methu cyflwyno'r AELl erbyn y dyddiad cau a bennwyd uchod, ni fydd yn derbyn swm llawn y ffi. Os caiff y AELl ei gyflwyno hyd at 14 diwrnod ar ôl y dyddiad cau, bydd yr ACLl yn cael hanner ei ffi yn unig, ac os caiff y AELl ei gyflwyno mwy na 14 diwrnod ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr ACLl yn derbyn unrhyw ffi o gwbl. Mae rhagor o wybodaeth am ffioedd i'w gweld yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016.

## 2. Ymgyngoreion Arbenigol

Caiff ymgyngoreion arbenigol eu diffinio yn y Gorchymyn Gweithdrefn DAC, a chânt eu pennu gan y meini prawf sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn. Mae'n ofynnol i ymgyngoreion arbenigol ddarparu ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad hwn heb fod yn hwyrach na 16.10.2024 drwy rinwedd Erthygl 23 y Gorchymyn.

Mae'r Ymgyngoreion Arbenigol a nodwyd gennym ar gyfer y cais hwn wedi'u rhestru yn **Atodiad A.**

## 3. Ymgyngoreion Cymunedol, Unigolion Perthnasol, a Phartïon â Buddiant

Caiff Ymgyngoreion Cymunedol eu diffinio yn y Gorchymyn Gweithdrefn DAC, fel

a) pob cynghorydd cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sy'n cynrychioli ward etholiadol y lleolir ynddi dir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef; a
b) pob cyngor cymuned y lleolir yn ei ardal dir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef.

Caiff Unigolion Perthnasol eu diffinio gan Adran 62G Deddf 1990 fel "yr unigolyn a fyddai (heblaw am adran 62F) wedi gwneud y penderfyniad ynghylch p'un a ddylid rhoi'r caniatâd eilaidd", h.y. yr unigolyn a fyddai'n penderfynu ar gais, fel arfer, pe na fyddai wedi'i gyflwyno fel Caniatâd Eilaidd i gais am DNS.

Caiff y partïon sy'n bodloni'r meini prawf uchod, ac unrhyw unigolyn arall â buddiant, eu gwahodd i gyflwyno eu sylwadau ar y cais hwn. Os hoffech wneud sylwadau ar y cais, rhaid i'ch sylwadau gael eu derbyn erbyn 16.10.2024. Gallwch gyflwyno eich sylwadau drwy'r e-bost, drwy'r wefan neu drwy'r post. Mae ein cyfeiriad e-bost a'n cyfeiriad post i'w gweld ar frig yr hysbysiad hwn. Ni fydd unrhyw sylwadau sy'n cael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau yn cael eu derbyn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

Bydd yr holl sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Ni fydd manylion personol, fel cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn, ar gael i'r cyhoedd.

## 4. **Pob parti**

Bydd y weithdrefn yn cael ei phenderfynu deng diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cau ar gyfer sylwadau a'r AELI. Dylech fod yn ymwybodol, os oes angen cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad:

- Mae'n debygol o gael ei drefnu o fewn amserlen dynn. Fel y cyfryw, ni fydd modd trafod y dyddiad ar gyfer y digwyddiad. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r trefniadau o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw; a
- Bydd yr Arolygydd yn gwahodd y rhai y mae ef/hi o'r farn y mae eu presenoldeb yn angenrheidiol, a nhw yn unig fydd â'r hawl i gymryd rhan. Fodd bynnag, bydd unrhyw Wrandawiad neu Ymchwiliad yn ddigwyddiad cyhoeddus ac, fel y cyfryw, byddai croeso i unrhyw barti fod yn bresennol ac arsylwi'r trafodion.

Gallai'r Arolygydd farnu bod angen cyfnod atal (dan Adran 62L(5) Deddf 1990), a fydd yn atal y cyfnod archwilio. Bydd hysbysiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i bob parti mewn achosion lle mae'r Arolygydd o'r farn bod angen cyfnod atal.

Mae rhagor o arweiniad ar y broses DAC i'w weld ar y dudalen ganlynol:

[redacted]

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

[redacted]

Arweinydd Tîm Caniatâd Seilwaith

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

**ATODIAD A: Rhestr o Ymgyngoreion Arbenigol**

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadw
- Dŵr Cymru
- Tân ac Achub Môn
- Tîm Polisi Defnydd Tir a Phridd Llywodraeth Cymru
- Adran Briffyrdd IACC
- Awdurdod Priffyrdd Tîm Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Cefnffyrdd

**** English text begins on the next page****

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

**Town and Country Planning Act 1990 (as amended) ('the 1990 Act')**
**The Developments of National Significance (Wales) Regulations 2016 (as amended) ('the DNS Regulations')**
**The Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016 (as amended) ('the DNS Procedure Order')**

**Application by:** Wylfa Green Ltd
**Site address:** West of the B5112, 325M South of Llyn Alaw, 500M East of Llantrisant and 1.5KM West of Llanerch
**Proposed development:** Construction, Operation, Management and Decommissioning of a ground mounted Solar Farm and Energy Storage facility with associated development, including substation compound; site access improvements; cable trenches; biodiversity, landscape and hedgerow mitigation and enhancements.

The above application has been submitted to the Welsh Ministers for examination. It is considered to contain all essential supporting documents and the necessary fees have been paid in full; as such, it is a valid application and the examination period will now commence. The Inspector's report will be submitted to the Welsh Ministers within 24 weeks of the date of this letter.

The Inspector appointed to examine this Development of National Significance (DNS) Application is: [redacted]

The application documents can be found on the DNS website:

[redacted] **- Search 3274702**

This communication constitutes an **official notice of acceptance under Article 15(2) of the DNS Procedure Order.**

All parties should read the following carefully to ensure they understand the process and note any relevant deadlines.

## 1. Local Planning Authority

The Local Planning Authority (LPA) is now required to display a notice on site, as a matter of urgency, in at least one place on or near to the land which the application relates, for a period of not less than **30 days.**

The notices must be erected within 5 working days of the date of this Acceptance Notice. The LPA must write to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW) via [redacted] to confirm that it has complied with the requirement to erect the site notice as soon as possible after the notices have been erected.

The LPA must also place on the planning register, within 5 working days of the date of this letter, a copy of the following documents:

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

- the application made to the Welsh Ministers;
- the notification of receipt of an application given by the Welsh Ministers under Article 12 of the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016;
- the notice of acceptance given by the Welsh Ministers in relation to an application Article 15(2), i.e. this notice;

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

In order for the appointed Inspector to fully consider the application and report to the Welsh Ministers, it is crucial that the LPA produces a comprehensive Local Impact Report (LIR) as required by Section 62I(4) of the 1990 Act, and Regulation 25 of the DNS Procedure Order. This must be received by PEDW by no later than 16.10.2024.

Section 62K of the 1990 Act, and Regulation 25 of the DNS Procedure Order sets the minimum requirements for the content of an LIR. These are:

- The likely impact of the development on the area;
- planning history of the site;
- local designations relevant to the site / surroundings;
- any relevant local planning policies, guidance or other documents;
- draft conditions or obligations which the LPA considers necessary for mitigating any likely impacts of the development; and
- evidence of the publicity undertaken by the LPA in accordance with the Procedure Order, i.e. a copy of the site notice, a photograph of the site notice on display and a map showing the location of the site notice; and
- If any secondary consent(s) are sought with the application, the LIR must also address the likely impact of the consent(s) being granted, preferably as separate sections for each secondary consent.

If the LPA fails to submit the LIR by the deadline specified above, it will not receive the full fee amount. If the LIR is submitted up to 14 days after the deadline, the LPA will receive only half of its fee, and if the LIR is submitted more than 14 days after the deadline, the LPA will not receive a fee at all. Further information about fees can be found in the Developments of National Significance (Fees) (Wales) Regulations 2016.

## 2. Specialist Consultees

Specialist Consultees are defined in the DNS Procedure Order and are determined by the criteria listed in Schedule 5 to the Order. Specialist consultees are required to provide a substantive response to this consultation no later than 16.10.2024 by virtue of Article 23 of the Order.

The Specialist Consultees that we have identified for this application are listed in **Annex A.**

## 3. Community Consultees, Relevant Persons, and Interested Parties

Community Consultees are defined in the DNS Procedure Order as:

a) each county or county borough councillor representing an electoral ward in which the land to which the proposed application relates is situated; and
b) each community council in whose area the land to which the proposed application relates is situated.

Relevant Persons are defined by Section 62G of the 1990 Act as “the person by whom (but for section 62F) the decision as to whether to grant the secondary consent would have been made”, i.e. the person who would normally determine an application if it had not been submitted as a Secondary Consent to a DNS application.

The parties who meet the above criteria, and any other interested person, are invited to submit their representations about this application. Should you wish to comment on the application, your representation must be received by 16.10.2024. You may submit your representation by e-mail or by post. Our email and postal address can be found in the header of this notice. Any representations submitted after the deadline will not be accepted.

All representations will be published to the website. Personal details such as e-mail addresses and telephone numbers will not be made available to members of the public.

## 4. <u>All parties</u>

The procedure will be determined ten working days after the representations and LIR deadline has passed. You should be aware that if a hearing or inquiry is required:

- It is likely to be arranged within a tight timescale. As such, the date for the event will not be negotiable. However, we will provide at least 4 weeks’ written notice of the arrangements; and

- The Inspector will invite those whose presence he/she considers necessary and only they will be entitled to participate. However, any Hearing or Inquiry will be a public event and, as such, any party would be welcome to attend and observe proceedings.

The Inspector may consider a suspension period necessary (under Section 62L(5) of the 1990 Act), which will halt the examination period. All parties will be served a written notice in the case where an Inspector considers a suspension period is required.

Further guidance on the DNS process can be found on the following page:

[redacted]

If you require any further information, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely

[redacted]

Infrastructure Consenting Team Leader

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.

**ANNEX A: List of Specialist Consultees**

- Natural Resources Wales
- Cadw
- Welsh Water
- Anglesey Fire & Rescue
- Welsh Government Land Use & Soil Policy Team
- IACC Highways Department
- North and Mid Wales Team Highways Authority for Trunk Roads

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not involve any delay.